

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid ar nos Fercher 26ain o Fehefin 2019
yn Eglwys Sant Pedr Penrhosgarnedd 7.00pm.

Panel penodi Cyfarfod 6.45

Agenda

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 22-05-2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Ceisiadau Nawdd

Taliadau angen sylw

D W Lewis	Torri gwair Mai	£650.00
Cyflog	Mis 3 Mehefin	£443.00
HMRC	Mis 3	£110.80
Garddio	Gwanwyn 2019	£ 370.00
Cyngor Gwynedd	Tal blynyddol Gwastraff	£261.00
RoSPA	Archwyllo Cae Chwarae	£ 82.20

I'w trafod hefyd

Cyfarfod Cyngor Pentir a Pwyllgor Rheoli Canolfan Penrhosgarnedd

Cyfrifon 2018-19 - Wedi eu anfon i BDO 24 – 05 – 2019

Polisiau Rheolau Sefydlog

Cofrestr Buddiannau

Cytuno ar Leoliadau yn y 4 cymunedau i dderbyn Diffib Caerhun, Glasinfryn Treborth a Penrhos

Newid graddfeydd Tal Cyflog Cenedlaethol

Datblygiad Prydles canolfan Penrhos / Ysgol Y Faenol

Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 22ain o Fai 2019 yn Eglwys Sant Pedr Penrhosgarnedd 7.00pm.

Ymddiheuriadau Neb pawb yn bresennol

Cod Ymddygiad Cwblhaodd Cyng D W Jones ffurflen datgan buddiant gan ei fod yn warden yr Eglwys da ni'n Llogi i gynnal ein cyfarfod

Cofnodion Cyfarfod diwethaf

Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng J Pierce yn eilio fod cofnodion 24-04-2019 yn gofnod cywir

Materion yn codi o'r cofnodion Y Clerc wedi galw yn y Banc heddiw i geisio datrys y broblem agor yr ail gyfrif. Wedi derbyn ail ffurflen i'w arwyddo ganddynt.

Arwyddwyd y ffurflen gan y Cadeirydd Cyng L A James Y Clerc angen ei dychwelyd unwaith eto i'r Banc

Adroddiad Ariannol Wrth gysoni ein cyfrif Banc 'roedd diffyg o £150 rhwng beth ddylai fod yn y cyfrif yn ol Cyfrifon y Clerc a'r hyn oedd yn y cyfrif yn ol yr Adroddiad bach dderbynwyd o'r Bank pawns heddiw

Clerc i archwilio ymhellach

Ceisiadau Nawdd Bobath Argymhell nad oeddem i gyfrannu iddynt eleni

Cytunwyd y Taliadau a ganlyn

D W Lewis	Torri gwair Ebrill	£650.00	Cyflog	Mis 2 Mai	£443.00
HMRC	Mis 2	£110.80	Ysw BHIB	Tal 2019-20	£1558.30
Delwedd	Tal blynyddol	£431.28			

Derbynion ers ein cyfarfod olaf Cyngor Gwynedd taliad cyntaf Praesept £25,000 a HMRC £3686.03 ad-daliad TAW 2018-19

I'w trafod hefyd

Ymateb BHIB i'n Cais am ad-daliad am Giat y Fynwent

Y Clerc wedi derbyn cynnig ad-daliad o £504.58 yn hytrach na'r £2336.00 oedda ni'n ei hawlio.

Eu rhesymeg dros hyn oedd ein bod wedi cam-brisio ein asedau. Tae nhw'n darganfod y sawl sy'n gyfrifol yna byddai'r Cyngor yn ad-ennill y gost gyfan.

Trafodwyd y mater gyda'r argymhelliad ein bod yn cysylltu yn ol gyda'r Heddlu unwaith eto i weld os eos datblygiad ond teimlad oedd nad oedd fawr o bwrpas cysylltu a'r umfudsman gan mae'n bosib mae ein cyfrifoldeb ni fel cyngor yw prisio gwerth ein asedau. **Ceisio barn y Cyngor Llawn**

Cyfarfod Cyngor Pentir a Pwyllgor Rheoli Canolfan Penrhosgarnedd

Cynhaliwyd cyfarfod fore Gwener 17eg o Fai rhwng dirprwyaeth o'r Cyngor a swyddogion Pwyllgor Rheoli Canolfan Penrhos. Yn bresennol ar ran y Cyngor oedd Y Clerc Y Cadeirydd Cyng C E Hughes Cyng L A James sy'n cynrychioli CCP ar Lywodraethwyr Ysgol Y Faenol a Cyng T A Williams sy'n cynrychioli CCP ar Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan.

O'r Pwyllgor Rheoli 'roedd Y Cadeirydd Cyng M Baines yr Ysg Helen Hayes a Is Gadeirydd Mr A Joyce Cadeirwyd y Cyfarfod gan Cyng M Baines.

Dosbarthwyd y Cynllun mewnnol terfynnol i bawb

Datgelwyd mae un o'i pryderon mwyaf oedd yr ansicrwydd o pwy a sut fyddai'r Ganolfan newydd yn cael ei rhedeg gan mae ychydig iawn o'r gymuned sy'n fodlon rhoi o'i amser i weithgaredd o'r fath.

Cafwyd ar ddeallt fod eu Trysorydd yn ymddiswyddo ar ol eu Cyfarfod Blynyddol ar 10fed o Fehefin.

Dymunai yr Ysgrifennyddes hefyd ymddiswyddo ymhen Blwyddyn.

Ni allai CCP ddatgan sut yn union y byddai nhw'n gweinyddu'r Ganolfan newydd ond eu bod yn fodlon ystyried pob opsiwn cyn penderfynnu yn derfynnol

Cadarnhawyd mae telerau yr 'hen' brydles oedd yn wedi mynnu fod Deiliaid y Brydles CCP yn penodi Pwyllgor Rheoli gyda chynrychiolaeth o'r defnyddwyr yn rhan o'r pwyllgor ynghyd a Cynghorwyr Sir, Dosbarth a Chymuned.

Y brydles honno sy'n dal yn weithredol ar hyn o bryd er bod Prydles hyd at 2021 wedi ei drafftio ynghyd a drafft o brydles o 2021 ymlaen am 99 mlynedd

Mae CCP o'r farn eu bod ers cychwyn y trafodaethau wedi gwrandao ar farn a hyheadau'r defnyddwyr a bod y cynlluniau trefynnol heddiw yn dyst o hynny arwahan i'r 'hatch' sydd bellach ddim yn cael eu ystyried yn 'ddiogel' i ddefnyddwyr.

Esbonwyd fod y Cais Cynllunio o fael Pwyllgor cynllunio Dydd Llun 20fed o Fai ag mae y bwriad wedyn os aiff popeth drwadd yw cychwyn yr adeiladu tua Diwedd Awst dechrau Medi gan gwblhau Diwedd 2020 i ddechrau 2021

Bydd y rhan Ganolfan o'r prosiect yn cael ei adeiladu gyntaf ag y bydd dosbarthiadau o'r ysgol yn cael eu cynnal yna hyd nes y bydd gweddill adeiladau'r Ysgol yn cael eu cwblhau. Bydd Cyngor Pentir wedi cymeryd rheolaeth o'r Ganolfan newydd cyn iddynt ddechrau dymchwel y ganolfan bresennol.

Mae hynny'n golygu na fydd neb yn colli defnydd yn sytod y cyfnod adeiladu.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn awyddus i gael cefnogaeth yn ystod y cyfnod pontio a sicrhawyd fod CCP yn hapus i gefnogi lle y gallant.

Ymddengys fod pawb yn hapus gyda'r cynlluniau terfynnol ag y parheir y trafodaethau rhwng y ddwy ochr

Cyfrifon 2018-19

Darllenodd y Cadeirydd adroddiad yr Archwilwyr Mewnnol parthed ein sefyllfa ariannol gyda nodyn yn cyfeirio at eu beirniadaeth am ein methiant i adolygu Risg yn flynyddolddiffyg a'n methiant i gyhoeddi manylion cyswllt a.y.y.b. ar y Wefan sy'n ofynnol dan adran 55 ag 81 Deddf llywodareth leol 2000)

Tra'n derbyn y feirniadaeth mae'n bosib mae oherwydd fod y Wefan i lawr gan Gwmni Delwedd oedd yr ail bwynt o'r feirniadaeth.

CC P heb dalu ond Delwedd wedi anfon y Infois i Uned 15 Parc Menai ag e-bost Clerc@Cyngorpentir oedd ddim yn medru cael ei ddefnyddio.

Broblem honno bellach wedi ei datrys

Yr Is-Bwyllgor Cyllid yn argymhell i'r Cyngor Llawn dderbyn a chymeradwyo fod y Cadeirydd yn arwyddo y Fantolen Ariannol 2018-19 fel gall y Clerc ei anfon ymlaen i'r Archwilwyr Allannol BDO

Adnewyddu Polisi Ysw BHIB Gan ein bod wedi ymrwymo am gyfnod o 3 blynedd bydd angen talu ond yn gyntaf bydd rhaid addasu prisiau ein asedau fydd yn debygol iawn o olygu bydd ein Infois am £1558.30 yn sylweddol uwch.

Clerc i drafod gyda'r BHIB

Cytuno ar Leoliadau yn y 4 cymunedau i dderbyn Diffib Caerhun, Glasinfryn Treborth a Penrhos Cytunwyd i ofyn yn y Cyngor Llawn am i'r Cynghowyr lleol holi am leoliadau o fewn eu cymunedau

Clerc i holi BT am leoliadau mewn Ciosg

Newid graddfeydd Tal Cyflog Cenedlaethol Mae newid yn y graddfeydd Cyflog Cenedlaethol i newid Tal yr awr i'r Clerc o £12.78 i £13.15

Ymhellach trafodwyd i'r Panel Penodi gyfarfod 6.45 cyn y cyfarfod ar 26ain o Fehefin i drafod telerau'r Clerc

Datblygiad Prydles canolfan Penrhos / Ysgol Y Faenol Dim i'w adrodd

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00